Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 308 (Cy. 62)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Peilota) (Cymru) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adrannau 537A(1) a (2) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996. Daw'r Rheoliadau i rym ar 8 Ebrill 2025.

Mae'n ofynnol i berchennog ysgol annibynnol yng Nghymru ddatgelu i awdurdod lleol perthnasol (fel y'i diffinnir yn rheoliad 2), erbyn 20 Mai 2025, wybodaeth benodedig a ddelir ganddo mewn perthynas â phlentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol honno (rheoliad 3).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Tegwch mewn Addysg, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 308 (Cy. 62)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Peilota) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Mawrth 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *12 Mawrth 2025* |
| *Yn dod i rym* | *8 Ebrill 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537A(1) a (2) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, dod i rym a dod i ben**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Peilota) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Ebrill 2025 ac maent yn peidio â chael effaith ar 20 Mai 2025.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 1996 p. 56. Mewnosodwyd adran 537A gan adran 20 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), ac fe'i hamnewidiwyd gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31). Fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 2010/1158 a chan O.S. 2012/976. *Gweler* adran 579(1) am ystyr "regulations" a "prescribed".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 537A a 569 o Ddeddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "awdurdod lleol peilot" ("*pilot local authority*") yw awdurdod lleol a restrir yn Atodlen 1;

ystyr "awdurdod lleol perthnasol" ("*relevant local authority*") yw'r awdurdod lleol peilot y mae'r plentyn yn preswylio fel arfer yn ei ardal;

mae i "disgybl cofrestredig" yr un ystyr â "registered pupil" yn adran 434(5) o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg 1996;

mae i "oedran ysgol gorfodol" yr un ystyr â "compulsory school age" yn adran 8 o'r Ddeddf(**1**);

mae i "perchennog" yr un ystyr â "proprietor" yn adran 579(1) o'r Ddeddf(**2**);

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person o oedran ysgol gorfodol sy'n preswylio fel arfer yn ardal awdurdod lleol peilot;

ystyr "ysgol annibynnol" ("*independent school*") yw ysgol sydd wedi ei chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002(**3**).

### Datgelu gwybodaeth i awdurdod lleol perthnasol

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo perchennog ysgol annibynnol yn dal unrhyw wybodaeth berthnasol.

(2) Rhaid i'r perchennog ddarparu'r wybodaeth berthnasol a ddelir i'r awdurdod lleol perthnasol erbyn 20 Mai 2025.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gwybodaeth berthnasol" yw unrhyw wybodaeth a bennir yn Atodlen 2 mewn perthynas â phlentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol annibynnol.

*Lynne Neagle*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
10 Mawrth 2025

---

(**1**) Diwygiwyd adran 8 gan adran 52 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44).

(**2**) Diwygiwyd y diffiniad o "proprietor" gan adran 140(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31) a pharagraff 183(a)(iii) o Atodlen 30 iddi. Mae offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) 2002 p. 32. Diwygiwyd adran 158 gan adran 173 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25) a pharagraff 17 o Atodlen 1 ac Atodlen 2 iddi, a chan adran 54(2) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## Atodlen 1 Rheoliad 2

## Awdurdodau Lleol Peilot

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Sir Caerdydd

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Powys

Cyngor Sir Ynys Môn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 2

Rheoliad 3

## Yr wybodaeth sydd i'w darparu i'r awdurdod lleol perthnasol

**1.** Enw'r plentyn (gan gynnwys unrhyw enw blaenorol).

**2.** Cyfeiriad y plentyn (neu ei gyfeiriad hysbys diwethaf), gan gynnwys cod post.

**3.** Dyddiad geni'r plentyn.